Beibl i Blant
yn cyflwyno

Tân!

Awdur: Edward Hughes

Lluniau gan: Lazarus

Cyfieithydd: Catrin Roberts

addaswyd gan: E. Frischbutter

Stori 24 o 60

www.M1914.org

Bible for Children, *PO Box 3, Winnipeg, MB R3C 2G1 Canada*

Trwydded: mae gennych hawl i gopïo neu argraffu'r stori hon, ar yr amod nad ydych yn ei gwerthu.

Welsh

Roedd pethau'n ddrwg yn Israel. Roedd y brenin a'r frenhines yn casáu Duw. Dyna esiampl wael i bawb! Cyn hir roedd y bobl hefyd yn casáu Duw ac yn addoli duwiau ffug.



Oedd yna bobl yn caru Duw? Oedd, roedd rhai yn dal ati i'w addoli. Un diwrnod, siaradodd Duw gydag un ohonyn nhw, Elias.



Dywedodd Elias wrth y brenin drwg Ahab, "Mor sicr â bod yr ARGLWYDD, Duw Israel yn fyw, fydd yna ddim gwlith na glaw y blynyddoedd nesaf yma nes i mi ddweud yn wahanol." Roedd hynny'n golygu newyn! Doedd Duw ddim am adael i'w bobl gario mlaen i fod yn ddrwg.



3

Ar ôl rhoi rhybudd i'r brenin, cafodd Elias ei anfon gan Dduw i le tawel yn y wlad. Bu'n byw yno wrth ymyl nant. Anfonodd Duw gigfrain i roi bwyd iddo. Dyma nhw'n cario bara a chig yn y bore a gyda'r nos. Roedd Elias yn yfed dŵr o'r nant.

4



Cyn hir, sychodd y nant am ei bod hi heb fwrw glaw o gwbl. Roedd geiriau Duw yn dod yn wir. Roedd pawb yn y wlad yn brin o ddŵr. Doedd dim cnydau yn tyfu. Roedd y bobl eisiau bwyd. A oedd Elias yn meddwl beth fyddai'n digwydd ar ôl i ddŵr y nant ddiflannu?

5

Dywedodd Duw wrth Elias, "Cod, a dos i fyw i Sareffath. Dw i wedi dweud wrth wraig weddw sy'n byw yno i roi bwyd i ti."

Roedd Duw yn gwybod am angen ei weithiwr.

6

Ond dyna ffordd ryfedd o roi bwyd! Dyma Elias yn ufuddhau. Pan ddaeth i Sareffath, roedd gwraig weddw wrth giatiau'r dref yn casglu coed tân.

7

"Plîs wnei di roi ychydig o ddŵr i mi mewn cwpan," gofynnodd Elias i'r wraig. "A wnei di ddod â thamaid o fara i mi hefyd." "Does gen i ddim bara," atebodd y wraig.

"Dim ond llond dwrn o flawd mewn potyn ac ychydig o olew olewydd mewn jwg sydd gen i."

8

Yn drist, dywedodd y wraig wrth y proffwyd y byddai hi a'i mab yn marw o newyn ar ôl i'r blawd ddod i ben.

9

"Paid bod ag ofn. Gwna fymryn o fara i mi gyntaf. Cei baratoi bwyd i ti a dy fab wedyn," meddai Elias. "Ddaw'r blawd yn y potyn ddim i ben, na'r olew, nes bydd yr ARGLWYDD wedi anfon glaw unwaith eto." Byddai'n rhaid i Dduw wneud gwyrth i hynny ddigwydd – a dyna ddigwyddodd! Roedd digon o fwyd i'r wraig a'i mab am ddyddiau, a daeth y blawd yn y potyn na'r olew ddim i ben.



10

Arhosodd Elias gyda nhw. Yna digwyddodd rhywbeth trist. Aeth y mab yn sâl a marw. Cariodd Elias gorff y bachgen i'r llofft. Dyma fe'n galw ar yr ARGLWYDD, "O ARGLWYDD fy Nuw, plîs tyrd â'r bachgen yma yn ôl yn fyw!" Ond roedd hynny'n amhosib!



11

Dyma'r ARGLWYDD yn gwrando ar Elias, a dechreuodd y bachgen anadlu eto. Roedd yn fyw. Aeth â'r bachgen i lawr at ei fam. Dywedodd hi, "Nawr dwi'n gwybod bod yr ARGLWYDD wir yn siarad trwot ti."



12

Tair blynedd yn ddiweddarach, dywedodd Duw wrth Elias am fynd nôl at y brenin. Dywedodd, "Dw i'n mynd i anfon glaw ar y tir."



13

Mynd yn ôl at Ahab? Roedd ei wraig Jesebel wedi lladd cant o broffwydi Duw yn barod. Ond wnaeth Elias ddim dadlau – fe aeth at y Brenin Ahab.



14

Pan wnaeth y ddau ddyn gyfarfod, fe wnaeth Elias herio Ahab a dweud wrtho am alw pawb yn Israel a'r 850 o broffwydi ffug i Fynydd Carmel. Dywedodd Elias wrth y bobl, "Os mai'r ARGLWYDD ydy'r Duw go iawn, dilynwch e."



15

Trefnodd Elias fod dau darw yn cael eu paratoi fel aberth. Ond doedd neb i gynnau tân i'w llosgi. "Cewch chi alw ar eich duwiau ac fe wna i alw ar enw yr ARGLWYDD," meddai. "Y duw sy'n anfon tân fydd yn dangos mai fe ydy'r Duw go iawn." "Syniad da," meddai'r bobl.



16

Dyma'r proffwydi ffug yn galw ar eu duwiau ffug trwy'r dydd. Dyma nhw'n dechrau dawnsio'n wyllt a neidio, a torri eu hunain gyda chyllyll nes bod eu cyrff yn waed i gyd. Ond doedd dim byd yn digwydd.



17



Yna dyma Elias yn socio'r coed a cig y tarw gyda dŵr. Dyma fe'n gweddïo. "O ARGLWYDD, ateb fi, gad i bawb wybod heddiw mai ti ydy'r Duw go iawn..." Yna'n sydyn dyma dân yn disgyn oddi wrth yr ARGLWYDD.

Llosgodd y tarw a'r coed. Yna llosgodd cerrig yr allor.

18

Pan welodd y bobl hyn, dyma nhw'n gweiddi, "YR ARGLWYDD ydy'r Duw go iawn!" Dywedodd Elias, "Daliwch broffwydi Baal.



19

Peidiwch gadael i'r un ohonyn nhw ddianc!" Dyma Elias yn lladd y proffwydi ffug – rhywbeth y dylai'r brenin Ahab fod wedi ei wneud cyn hyn.

20

Yna dywedodd Elias wrth Ahab fod glaw ar ei ffordd. Cyn hir daeth cwmwl bach i'r golwg. Oedd hi am fwrw glaw ar ôl tair blynedd o sychder?



21

Yn fuan wedyn, roedd cymylau duon yn yr awyr a gwynt yn chwythu a glaw trwm. Roedd Duw wedi anfon glaw. Roedd Duw wedi dangos i'r bobl fod Elias yn dweud y gwir – fe oedd y Duw go iawn.

22



Ydych chi'n meddwl fod y Brenin Ahab wedi parchu Duw a'i was Elias? Naddo! A dweud y gwir fe wnaeth Jesebel geisio lladd Elias, ond llwyddodd i ddianc. Yn y diwedd, cafodd Ahab ei ladd mewn brwydr, ac fe wnaeth gweision Jesebel ei gwthio hi oddi ar wal uchel yn y palas. Fe wnaeth hi farw wrth daro'r llawr.

23

Beth ddigwyddodd i Elias? Un diwrnod anfonodd Duw gerbyd o fflamau tân yn gael ei dynnu gan geffylau o dân; a chipio Elias i fyny i'r nefoedd mewn chwyrlwynt.

24

Tân!

Stori o Air Duw, y Beibl

sydd i'w gweld yn

1 Brenhinoedd 17-19, 2 Brenhinoedd 2

"Pan ddatguddir dy air, bydd yn goleuo."
Salm 119:130

Mae Duw yn gwybod bod ni wedi gwneud pethau drwg, beth mae e'n galw'n bechod. Y gosb am bechod ydy marwolaeth.

Mae Duw yn ein caru ni gymaint, fe wnaeth e anfon ei Fab, Iesu, i farw ar Groes. Fe wnaeth e gymryd ein cosb ni. **Daeth Iesu yn fyw eto** ac aeth yn ôl i'r Nefoedd! Nawr gall Duw faddau ein pechodau.

Os wyt ti am droi oddi wrth dy bechodau, beth am ddweud hyn wrth Dduw: Annwyl Dduw, rwy'n credu bod Iesu wedi marw drosof fi a'i fod yn fyw eto. Os gweli'n dda tyrd i mewn i'm mywyd a maddau fy mhechodau, er mwyn i mi gael bywyd newydd nawr, ac yna cael bod gyda Thi am byth. Helpa fi i fyw fel plentyn i ti. Amen. Ioan 3:16

Cofia ddarllen y Beibl a siarad bob dydd gyda Duw!